



Oedfa Hadau Gobaith

Gall yr oedfa fyfyrddod yma gael ei defnyddio fel adnodd ar gyfer Sul gwag, dros bedair noson dros baned yn ystod yr wythnos neu fel oedfa lawn.

Cofiwch ddewis emynau a gallwch rannu'r gwaith er mwyn i nifer gymryd rhan.

Mae modd gosod y myfyrddodau ar y storïau o Kenya neu ar y storïau o Nicaragua.

Kenya: Jennifer Gudere, Rose Galoro, Safia Galgallo a Lole Said Abila.

Croeso i fyfyrddod Hadau Gobaith. Mae Covid-19, gwrthdaro a'r argyfwng hinsawdd yn gwthio mwy o'n cymdogion byd eang i orfod brwydro er mwyn goroesi. Wrth i ni fyfyrïo heddiw safwn gyda'n cymdogion a'n partneriaid PACIDA (Pastoralist community Initiative and Development Assistance) yn Kenya. Trwy hyfforddiant mewn ffyrdd newydd o ffermio, mae cymunedau yn meithrin y gallu sydd ei angen arnynt i allu byw ar y tir. Byddwn yn rhannu stori tair merch ryfeddol – Jennifer, Rose a Safia ac un gwr arbennig sef Lole.

Cawn ein harwain i fyfyrïo, i feddwl ac i ymateb. Mae pob rhodd, pob gweithred a phob gweddi yn newid bywydau.

Emyn

Darlleniad Mathew 5: 3-12

Mae yna ddysgeidiaeth gyfoethog yn y gwynfydau am yr hyn a olygir wrth gael ein 'bendithio' yng ngolwg Duw. Ac fel cymaint o ddysgeidiaeth Iesu, mae'n groes i'n diwylliant ni. Mae adnod 6 yn ein hatgoffa ein bod wedi'n bendithio pan fyddwn yn 'llwgu a sychedu am gyfiawnder'. Gair anodd i'w ddeall ydi cyfiawnder, ond yn gyffredinol golyga safon foesol sy'n cyfeieio at fywyd o berthynas dda ag eraill. Gwelwn cymaint o anghyfiawnder yn ein byd. Dylai'r ffaith fod cymaint yn newynu pob dydd ein gyrru ninnau i newynu a sychedu am ddosbarthiad tecach o gyflawnder y greadigaeth.

Stori Jennifer Gudere

Jennifer Gudere (y llun ar boster Hadau Gobaith) yw caderydd Grwp Merched Siligi ym mhentref Songa, Sir Marsabit yng ngogledd Kenya. Wedi ei magu yn y pentref gall Jennifer gofio pa mor wahanol oedd y tywydd.

"Yn y gorffennol, roeddem yn cael llawer o law yn nhymor y glaw," cofiodd Jennifer. "Roedd y ffa yn ffynnu, roeddem yn gwybod ein bod am gael cawodydd o law ym mis Rhagfyr ac felly hefyd ym mis Awst. Yn mis Ebrill roeddem yn paratoi ein caeau, a'u cael yn barod oherwydd roeddem yn gwybod fod y glaw yn agos".

Ond wrth i'r sychder gynyddu ac i'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cynnal bywyd leihau, mae bywyd yn llawer mwy anodd. Un canlyniad i'r diffyg hwn yw'r cynnydd mewn gwrthdrawiadau rhwng cymunedau sy'n ysu am adnoddau. Yn ei phentref, mae teuluoedd wedi colli tadau i'r gwrthdaro hwn, yn enwedig yn ystod y tymor sych. Dywed Jennifer y gellid clywed swm gynnu yn ystod y tymor sych, wrth i ddynion ymladd dros ddwr a phorfa. Pan fo'r gynnu'n distewi, mae plant wedi colli tadau a mamau wedi colli meibion.



Myfyrio ac ymateb

Myfyriwch yn weddigar ar yr hyn y gallech ei hepgor heddiw neu trwy gydol yr wythnos neu'r mis fyddai'n helpu i greu byd tecach.

Allech chi wneud heb eich car abell ddiwrnod?, neu eich coffi tec-awe? Allech chi hepgor prynu ffasiwn dros dro? Cofiwch hefyd brynu'n lleol neu brynu nwyddau Masnach Deg. Mae llawer i'w ystyried, felly cymerwch eich amser.

Gweddiwn

Dad, nefol, cordda ynom newyn a syched am gyfiawnder a chadw ni ar dân dros unioni'r cam sy'n dy ddigio di. Amen

Darlleniad Mathew 4: 18-22

Er bod Iesu yn Dduw mewn cawd dynol ac yn gwbl alluog, dewisodd beidio a bod ar ei ben ei hun yn y byd hwn, ond dewisodd deithio gydag eraill. Mae Iesu'n galw ar ei ddisgyblion i'w ddilyn, ac i deithio gydag ef o ddyfnder anobaith i gyflawnder llawenydd.

Golyga undod sefyll neu gerdded gydag eraill. Fe safwn ni mewn undod gyda Rose. Cawn ein hysbrydoli gan gryfder ei chymuned a'r gofal sydd ganddynt dros eu gilydd a'r greadigaeth. Gofal sydd yn aml ar goll yn ein cymunedau ein hunain.



Stori Rose Galoro



Mae Rose Galoro hefyd yn aelod o Grwp Merched Siligi. Mae'n wraig weddw. Lladdwyd ei gwr yn ystod ymosodiad bandit ar bentref Songa yn ystod tymor sych 2010. Gadawyd hi gyda wyth o blant – pum merch a thri bachgen.

Mae Rose yn gwybod yn iawn am effeithiau newid hinsawdd ar ei bywyd. Yn ystod cyfnodau o sychder, rhaid iddi gerdded llawer pellach ar gyfer dwr a phorfa ar gyfer ei da byw. "Does gan ein da byw ddim i fwyta arno, sy'n golygu y byddant yn marw" meddai.

Mae ymuno a'r grwp merched wedi bod yn dda i Rose "Rwyf wedi dysgu bod perthyn i'r grwp yn beth da" eglura Rose. "Rydau ni'n hapus oherwydd ein bod yn dod at ein gilydd. Rydan ni'n cyfarfod, a hyd yn oed os ydych chi'n stressed am rhywbeth, pan ddown ni at ein gilydd fel grwp, rydych chi'n dueddol o anghofio pethau, ac yn gallu gofyn am gyngor gan y merched eraill ar nifer o faterion, yn cynnwys sut i dyfu".

Mae gwranddo ar anghenion y cymunedau eu hunain yn un rhan allweddol o waith PACIDA. Trwy sefydlu Pwyllgorau Ward ar Gynllunio Newid Hinsawdd – ble mae merched, yr ifanc a'r oedrannus yn cael llais – mae PACIDA yn gallu gosod anghenion y cymunedau yn eu cynlluniau. Tra bo arbenigedd PACIDA yn allweddol, blaenoriaethau'r bobl leol sydd yn helpu i roi siap i'r cynlluniau.

Gweddiwn

Arglwydd, helpa ni dy adnabod Di yn y rhai sy'n teithio gyda ni a rho inni ddewrder i sefyll yn ymyl y rhai sy'n ymdrechu. Amen

Emyn



Darlleniad Eseia 58: 6-7,9

Mae'n anghyfiawn fod sychder yn dwyn y grym oddi ar ferched fel Jennifer, Rose a Safia i roi bwyd i'w teuluoedd.

Wrth i'r argyfwng hinsawdd barhau, mae cymunedau bregus yn wynebu bygythiad sychder, stormydd a llifogydd dwysach. Bydd y siociau hinsawdd hyn yn dinistrio cnydau, achosi mwy o ferched i golli bywoliaeth a gwthio teuluoedd i newyn gwaeth.

Stori Safia Galgallo



Mae fferm dofednod Safia Galgallo yn ffynnu! Mae ei bywyd yn engraifft o'r hyn sy'n bosib hyd yn oed mewn sefyllfa hynod o heriol. Yn fam briod i bump, mae hefyd yn gofalu am bedwar o blant eraill a'i mam yng nghyfraith.

Bu bywyd yn galed iawn iddi. Gadawodd hi a'i theulu ranbarth diffaith y Chalbi i adeiladu bywyd gwell iddynt eu hunain mewn pentref yn ymyl Marsabit. Ond oherwydd gwrthdaro treisgar yno bu raid iddynt symud yr eilwaith.

Gwellodd ei bywyd pan ymunodd gyda Grwp Merched Usafi – sydd hefyd yn derbyn cefnogaeth gan Cymorth Cristnogol. Gyda chefnogaeth ariannol y Grwp, tyfodd ei busnes dofednod. Bellach mae ganddi dri chwt ieir a thros 500 o gywion. "Mae'r busnes yn ffynnu" meddai "ac mae'n fy helpu i ofalu am fy nheulu". Ychwanegodd Safia: "mae bod yn y grwp yn fendith a chredaf fod pobl sy ddim yn perthyn yn cael llawer mwy o broblemau. Er engraifft, rhaid iddynt fynd pellter hir i gario dwr a does gan y plant ddim bywd. Fyddai fy musnes ddim wedi ffynnu heb y grwp".

Gyda newid hinsawdd yn parhau i effeithio'r tywydd, mae'r teulu'n parhau i wynebu heriau. "diffyg dwr yw'r her fwyaf i mi" meddai Safia. "Roeddem yn arfer mynd i nol dwr yn ymyl y dref,



ond roedd yn hectic iawn. Trwy'r grwp fe rydan ni wedi prynu tanc a phan mae'n glawio mae'n cronni'r dwr".

Gweddiwn

Arglwydd Iesu, cydanbyddwn ein rhan yn yr argyfwng hinsawdd. Agor ein llygaid i weld ble gallwn wneud gwahaniaeth i ddiogelu'r greadigaeth yn well i'r holl ddynoliaeth. Amen

Cyfle i ddangos ffilm Hadau Gobaith (opsiynol).

Casgliad

Darlleniad Datguddiad 7: 16-17

Mae'r darlleniad yn darlunio golygfa hyfryd o adeg y bydd pob dioddefaint yn dod i ben pan fydd teyrnas Dduw wedi ei sefydlu. Fel pobl Dduw, edrychwn ymlaen yn fawr at y diwrnod hwnnw, a newynwn am adferiad yr holl greadigaeth. Wrth ddisgwyl gyda gobaith am ddyfodiad y deyrnas, credwn fod gennym gyfrifoldeb i weithredu ewyllys Duw ar y Ddaear heddiw, trwy ein gweithredoedd a'n llais.

Stori Lole Said Abila



Mae Lole Said Abila yn weinidog gydag Eglwys Lutheraidd Efengylaidd Kenya. Mae'n 40 oed, yn briod a chanddo dair o ferched. Mae'n aelod o Fforwm Rhyngffydd ei sir, sy'n casglu Cristnogion a Mwslemiaid at ei gilydd i drafod materion newid hinsawdd, datblygu, heddwch a diogelwch.

Wrth siarad am swyddogaeth yr eglwys yn mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd, meddai Lole: "Rydan ni am newid y stori yn ein rhanbarth. Pan welsom ni effeithiau newid hinsawdd,



daethom at ein gilydd fel eglwys i chwilio am ffyrdd amgen i ddod trwy'r sefyllfa. Down at ein gilydd fel arweinwyr crefyddol o wahanol enwadau trwy Rhyngffydd. Ein swyddogaeth yw rhannu neges heddwch ac effeithiau newid hinsawdd trwy wahanol sianeli".

Mae'r Fforwm wedi hyfforddi 90 llysgennad newid hinsawdd, gyda Christnogion a Mwslemiaid yn cymryd rhan. Mae pob un wedi ei leoli mewn gwahanol rannau trwy'r sir ac mae eu gwaith yn cynnwys casglu pobl leol at ei gilydd i'w helpu i addasu i'r heriau a wynebant.

"Maent yn cael eu hyfforddi" meddai Lole "ac wedyn yn mynd a'r hyn a ddysgant yn ol i'w cymunedau. Fe welwn ni gymunedau yn mentro i ffermio pethau fel papaya, tomatos a bananas". Mae rhaglen y llysgenhadon yn agwedd allweddol o addasiad newid hinsawdd, gan roi gobaith i gymunedau wrth iddynt wynebu heriau eu hamgylchedd llym.

Eglura Lole mai diffyg arian yw un o heriau mwyaf y Fforwm: "Dydan ni ddim am gymryd arian gan y llywodraeth oherwydd rhagfarnau canfyddedig. Dydan ni ddim am i neb gwestiynu pwy yr ydan ni'n ei gynrhychioli, oherwydd Duw yr ydan ni'n ei gynrhychioli ar eglwys. Rydan ni angen arian gan unigolion tebyg i ni fel y gallwn rannu neges heddwch a dulliau amgen i wneud bywoliaeth yn ystod yr adeg o hinsawdd ansicr hwn".

Myfyrio

Sut wnawn ni ddisgleirio goleuni Duw yn y byd hwn sy'n dal i ddisgwyl amdano? Ymhle a sut allwn ni ddod a gobaith? Wnewch chi godi llais er mwyn sicrhau dyfodol gobeithiol i'n brodyr a'n chwiorydd yn Marsabit. Wnewch chi weddio dros bawb mewn llywodraeth, ein haelodau lleol a chenedlaethol, yn ogysta a phenaethiaid gwledydd o amgylch y byd? Gweddiwch y byddant yn gwrando cri'r bobl a effeithir fwyaf gan yr argyfwng hinsawdd, y byddant yn gwrando ar alwad y gwyddonwyr a'r elusennau sy'n gweithio gyda chymunedau mewn risg, ac y byddant yn benderfynol o wneud y newidiadau mawr sydd eu hangen i atal y difrod a wneir i'r greadigaeth.

Gweddiwn

Dduw cyfiawnder, gweddiwn dros arweinwyr y gwledydd. Rho iddynt ddewrder, unplygrwydd a chryfder i wneud y penderfyniadau cywir er lles yr hinsawdd a'th holl bobl. Dad cariadus, rhown ein diolch i ti am waith partneriaid Cymorth Cristnogol. Bydded i'w gwaith barhau i fod yn ffrwythlon a dod a llawenydd i'r rhai y maent yn gweithio gyda hwy. Arglwydd, helpa ni i ystyried yr etifeddiaeth fydd ar ein hol, ac i weithredu heddiw ar gyfer yfory yn enw Iesu Grist ein Harglwydd an dysgodd i weddio, Ein Tad ... Amen.

Emyn

Y Fendith